CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU | CBAC WJEC | WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | General Certificate of Secondary Education

225/01

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**HAEN SYLFAENOL**

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007

(2½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

Darllenwch y tri darn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Diwrnod y Gêm
Darn Darllen 2: Troi hanes yn ffilm
Darn Darllen 3: Teulu'n symud o Gymru i Batagonia

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Diwrnod y Gêm (Darn Darllen 1)**
**Troi hanes yn ffilm (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Pam roedd pob man yn ddistaw yn Nhrelew, Patagonia ar ddydd Gwener, Mehefin 16, 2006? [2]

(ii) Enwch **bedwar** o'r pethau oedd yn ffenestri'r siopau. [2]

(iii) Pwy enillodd y gêm? Beth oedd y sgôr? [2]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Ymhle y mae'r actor, Matthew Rhys, yn byw yn awr? [1]

(v) I ble'r aeth y criw cyntaf o Gymry i sefydlu'r Wladfa? [1]

(vi) Beth mae Matthew Rhys yn dweud oedd un o brofiadau gorau ei fywyd? [2]

**[10]**

**2. Troi hanes yn ffilm (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** ysgrifennwch gyfweliad â Matthew Rhys yn ei gyflwyno ac yn holi am ei ymweliad â Phatagonia.

Dylech gyfeirio at:

- ble mae wedi bod a beth wnaeth yno;
- beth ddysgodd am y wlad honno;
- beth mae'n gobeithio ei wneud yn y dyfodol. [28]

Ysgrifennwch ar ffurf deialog. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o'r **darn darllen yn unig**.*

*Dylech ddefnyddio eich geiriau eich hun.* **[30]**

**3. Troi hanes yn ffilm (Darn Darllen 2)**
**Teulu'n symud o Gymru i Batagonia (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** nodwch yn fyr bethau sy'n debyg ac/neu'n wahanol rhwng y ddau ddarn.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (**tri** pheth o Ddarn Darllen 2 a **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [9]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (**dau** beth o Ddarn Darllen 2 a **dau** beth o Ddarn Darllen 3). [6]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [2]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[20]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar y testun, 'Ynys Unig'.

*Ceisiwch wneud yn siwr bod eich stori'n ddiddorol a bod cymeriadau a sgwrs ynddi.*

*(b)* **DYDDIADUR:**

Ysgrifennwch **dri** diwrnod o ddyddiadur person yn ymweld ag ardal neu wlad arall am y tro cyntaf.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, nodi beth sy'n digwydd ar y tri diwrnod yn ogystal â sôn am feddyliau a theimladau'r person.*

*(c)* **PORTREAD:**

Ysgrifennwch bortread manwl o berson rydych yn ei edmygu'n fawr.

*Ceisiwch ddweud sut berson ydyw, sut mae'n edrych ac unrhyw hanesion diddorol amdano / amdani a pham rydych yn ei edmygu.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae'n iawn i bobl ymfudo o un wlad i wlad arall!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

225/01 - A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF

## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007

(2½ awr)

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN SYLFAENOL**



| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

# AR DAITH

## DARN DARLLEN 1

cymru | tramor

bbc.co.uk



### DIWRNOD Y GÊM

**Catrin Morris yn gweld gwlad ar stop yn Ariannin, De America.**

**Dydd Gwener Mehefin 16, 2006. Trelew, Patagonia, Ariannin.**

Deg o'r gloch y bore a thawelwch ar y strydoedd. Mynd i'r siop – y siop ar gau. Cerdded y stryd a neb yn gyrru, neb yn cerdded, dim ceir ar y stryd.

Mynd i'r banc a chael ciw at y drws, dim ond un person yn gweithio wrth y ffenest. Pawb mewn hanner cylch o flaen y teledu.

Ie, gêm bêl-droed Ariannin yn erbyn Serbia yng Nghwpan y Byd a daeth gwlad gyfan i stop. Pawb yn eu crysau. Doedd dim modd cael neb i ateb y ffôn ar ôl deg.

Tasen ni wedi mynd i unrhyw swyddfa yno, fuasen ni wedi cael dim lwc. Roedd pawb yn eu crysau pêl-droed a'u capiau glas a gwyn o flaen y teledu yn gwylio'r gêm.

Ym mhob ffenest siop roedd nwyddau Ariannin yn gapiau, yn grysau, yn byjamas, yn sgarffiau, siwmperi ac yn y blaen ac yn y blaen.

Wrth gerdded i mewn i'r siopau prin oedd ar agor, roedd sain y dorf i'w glywed yn glir un ai ar y radio neu ar deledu wedi ei fenthyg yn unswydd i wylio Cwpan y Byd yn yr Almaen. Daeth y gwaith ar adeiladu'r bibell ddŵr newydd o Drelew i Borth Madryn i stop am ddwy awr. Roedd disgyblion Coleg Camwy, Y Gaiman yn dathlu gan eu bod yn cael mynd adre'n gynnar i wylio'r gêm hefyd.

Roedd pawb yn gwylio'r gêm. Ac wrth gwrs enillon nhw, Ariannin 6 - Serbia 0.

Ariannin. Gwlad arbennig.

**DARN DARLLEN 2**

# Troi hanes yn ffilm

**Mae gwylltineb a phrydferthwch Y Wladfa ym Mhatagonia yn denu'r actor Matthew Rhys.**




Fe fyddai Matthew Rhys wrth ei fodd yn actio mewn ffilm yn ymwneud â Phatagonia – ac mae diddordeb eisoes gan y cwmnïau mawr yn y syniad. 'Mae hanes Y Wladfa fel ffilm epig,' meddai'r actor o Gaerdydd sydd bellach yn byw yn Los Angeles yn yr Unol Daleithiau.

Yn 1865 penderfynodd tua 150 o bobl o Gymru ymfudo i Batagonia yn Ariannin yn Ne America. Ar ôl amser caled yn sefydlu'r Wladfa mae disgynyddion y Cymry, a aeth drosodd ar long Y Mimosa, yn parhau i fyw a siarad Cymraeg yno hyd heddiw.

Mae'n sôn am obeithion y criw cyntaf o Gymry a aeth ar long Y Mimosa yn 1865 o Lerpwl i sefydlu gwladfa yng nghanol tir diffaith yn Ariannin, heb wybod pa mor galed fyddai hi.

'Mae beth gyflawnodd y Cymry cyntaf yno yn anhygoel,' meddai. 'Roedd y caledi corfforol, y llifogydd a'r ofn yn enfawr.'

Bellach mae gan yr actor lu o ffrindiau'n byw yn Y Wladfa, ac fe fu nifer ohonyn nhw yn ei e-bostio gyda hanes ymweliad tîm rygbi Cymru â Phorth Madryn.

Fe fu Matthew Rhys ar ei ymweliad cyntaf â'r Wladfa chwe blynedd yn ôl, ac fe gafodd ei hudo gan yr hanes a gan brydferthwch y lle. Yna, ym mis Tachwedd y llynedd, fe fu ar daith ar draws Patagonia gyda gorwyrion rhai o'r ymfudwyr cyntaf. Roedden nhw'n ail-greu y daith enwog i chwilio am dir ffrwythlon.

'Dyma un o'r pethau anoddaf wnes i erioed,' meddai Matthew Rhys, 'sef marchogaeth 700km o Borth Madryn at draed mynyddoedd yr Andes. Ond dyna un o brofiadau gorau fy mywyd hefyd!' Aeth gyda chriw o 30 o ddisgynyddion oedd yn cynrychioli'r garfan wreiddiol.

'Ro'n i ar dân eisie mynd a phan dynnodd un o'r criw yn ôl o'r fenter ar y funud ola', fe ges i wahoddiad i fynd. Fi oedd yn cynrychioli Robert C. Jones, y bachgen cynta' i gael ei eni yn Y Wladfa. Mi wnes i ddyddiadur fideo o'r cyfan.

'Roedden ni'n gwersylla bob nos mewn lleoliadau prydferth newydd, o dir diffaith Paith y Dwyrain i dir gwyrdd yr Andes. Wedi cyrraedd Trevelin wrth droed yr Andes, fe gawson ni dderbyniad a chroeso enfawr. Mae'n wlad hynod o brydferth, yn gyfoethog dros ben o ran natur, ac roedd tystio i'r hyn gyflawnodd yr ymfudwyr gwreiddiol gyda fy llygaid fy hun yn brofiad emosiynol iawn. Roedd y fenter yn llwyddiant hefyd gan fod y Gymraeg a thraddodiadau'r Cymry yn parhau yno er gwaetha'r rhwystrau mawr a wynebodd yr ymfudwyr gwreiddiol yr holl flynyddoedd yn ôl.

'Yn ddelfrydol, fe hoffwn ddychwelyd i weithio yn Y Wladfa fel actor ar ffilm am hanes y lle ac yn galonogol, mae yna un neu ddau o brosiectau'n ceisio codi arian i wneud hynny.'

(Addasiad o erthygl yn y cylchgrawn *Golwg*)




(Map - *Yr Ateb Cywir*, Gwasg Carreg Gwalch)

*Y Wladfa – enw ar ran o dalaith yn Ne America sef Patagonia lle ymgartrefodd y Cymry yn 1865*
*ymfudo - symud i wlad arall i fyw*
*disgynyddion – perthnasau / teulu*
*gorwyrion - plant i ŵyr neu wyres*

**DARN DARLLEN 3**

## Teulu'n symud o Gymru i Batagonia - Detholiad o *Yr Ateb Cywir* gan Sian Lewis

Roedden ni'n arfer byw yng Nghymru mewn tŷ llwyd ar stryd lwyd gyda stribed cul o awyr uwchben. Roedd wyneb Dad yn llwyd hefyd bryd hynny – yn llwyd gan lwch glo – ond roedd yn obeithiol. Dwi'n dal i gofio clecian llon ei esgidiau wrth iddo gerdded yn dalsyth am adre un diwrnod a thaflu'i freichiau am Mam, Gruff a fi. Daeth ein cymdogion mas at garreg y drws i wrando ar ei eiriau.

'Rydyn ni'n pedwar yn mynd i symud i Ariannin,' meddai Dad yn llawn balchder. 'Rydyn ni'n mynd i greu Cymru newydd ar dir gwyrdd Patagonia.'

Gadawodd dros gant chwe deg o bobl eu cartrefi ym mhob cwr o Gymru, codi pac a hwylio i Ariannin ar fwrdd llong Y Mimosa. Safon ni i gyd ar y dec a chanu yn Gymraeg wrth i'r llong baratoi i adael porthladd Lerpwl ar y pumed ar hugain o Fai, 1865. Ymhen tri diwrnod roedden ni ar y môr mawr.


A dyna i chi daith oedd o'n blaenau. Fe fuon ni'n hwylio am ddeufis – deufis yn gaeth ar y llong gyda phobl yn sâl a babanod yn marw o'n cwmpas. Fe fydden ni'r plant wedi diflasu'n llwyr oni bai am Dafydd. Dafydd Williams oedd arwr fy mrawd. Roedd yn llon ac yn serchog ac roedd Gruff yn ei ddilyn i bob man.

.............................................

Ar yr wythfed ar hugain o Orffennaf, 1865 glaniodd Mam, Dad, Gruff a fi a'n cyd-deithwyr ar dir Patagonia. Yng Nghymru mae Gorffennaf yn ganol haf. Ym Mhatagonia mae'n ganol gaeaf. Roedd glaw oer annifyr yn disgyn wrth i ni gamu i'r traeth. Roedden ni'r teithwyr yn disgwyl gweld rhes o dai cysurus ar y lan, ond yr unig adeilad gorffenedig ar y traeth llwyd, moel oedd sied fawr bren. Wrth i ni swatio ymysg ein paciau dechreuodd Mam grio. Dwi'n dal i glywed sŵn y dagrau yn ei llais, pan redodd fy mrawd ar draws y traeth.

'Gruff ! Gruff ! Gruff !' sgrechiodd mam. 'Dere'n ôl!'
Roedd hi'n crynu gan ofn.
Roedd ofn arnon ni i gyd.
Nid ar y glaw na'r diffyg tai oedd y bai.

Y diwrnod cynt, pan oedd Y Mimosa wedi angori yn y bae, roedd Edwin Roberts, un o'r arweinwyr, wedi rhwyfo mewn cwch bach i'r llong i'n croesawu. Pan aeth e'n ôl i'r traeth, mynnodd Dafydd a rhai o'i ffrindiau fynd gydag e. Allen nhw ddim aros munud yn fwy. Roedd rhaid iddyn nhw roi eu traed yn ddi-oed ar wlad hardd a ffrwythlon Patagonia. Ond druan â nhw! Am siom! Doedd y wlad ddim yn hardd. Doedd hi ddim yn ffrwythlon. O'r traeth doedd dim i'w weld ond milltiroedd ar filltiroedd o dir anial, llychlyd, yn llawn o lwyni drain.



Felly beth wnaeth Dafydd? Fe redodd yn ei flaen. Roedd e mor awyddus i gyrraedd y wlad werdd a phrydferth, fe redodd yn ei flaen a heb ei ffrindiau. Erbyn i'r gweddill ohonon ni lanio, roedd Dafydd ar goll.

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
**General Certificate of Secondary Education**

225/01-B

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**
***WELSH: FIRST LANGUAGE***

**HAEN SYLFAENOL**
***FOUNDATION TIER***

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007
*A.M. TUESDAY, 12 June 2007*

(2½ awr)
*(2½ hours)*

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**
***For information: for the attention of the Examinations Officer***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.
Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A 12 page answer book.*

*Reading Material for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Answer the **three** questions in Section A and **one** question in Section B.*

*You are advised to spend approximately 1¾ hour on Section A so that you may spend at least ¾ hour on Section B.*

*Write your answers in the booklet provided.*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

*No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.*